Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Tyrchu'r tir
## Gwella iechyd pridd Cymru

Tachwedd 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Tyrchu'r tir
## Gwella iechyd pridd Cymru

Tachwedd 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

Roedd Hefin David AS yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Gyda thristwch mawr, bu farw ar 12 Awst 2025.



**Hefin David AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**Casgliadau** ..... 7

**1. Y cefndir** ..... 8

**2. Pwysigrwydd y pridd** ..... 9

**3. Monitro'r pridd** ..... 10

Ein barn ni ..... 13

**4. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy** ..... 15

Ein barn ni ..... 21

**5. Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas** ..... 23

Ein barn ni ..... 28

**6. Rheoleiddio** ..... 30

Ein barn ni ..... 32

**7. Targedau** ..... 34

Ein barn ni ..... 35

**8. Buddsoddiad preifat a'r farchnad credyd carbon pridd** ..... 37

Ein barn ni ..... 38

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ..... 40

**Atodiad 2 : Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 41

Gwybodaeth ychwanegol ..... 41

# Rhagair y Cadeirydd

Yn aml, mae rôl hanfodol pridd iach wrth hyrwyddo cynaliadwyedd yn cael ei hanwybyddu. Yn ogystal â darparu bwyd maethlon, mae pridd o ansawdd da sy'n cael gofal da yn wych ar gyfer atafaelu carbon a hyrwyddo bioamrywiaeth. Gan fod angen canrifoedd i uwchbridd o ansawdd ffurfio, mae ei natur adnewyddadwy wedi'i chyfyngu gan broses adfywio araf iawn. Felly, mae'n hanfodol cymryd camau rhagweithiol i wella a gwarchod ein hadnoddau pridd presennol cyn i ddirywiad na ellir ei wrthdroi ddigwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'i hymrwymiadau i gynaliadwyedd a chenedlaethau'r dyfodol. Os yw am gyflawni ei nod o sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol o leiaf yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym nawr, ac os ydym am adael tir o ansawdd addas i gynhyrchu digon o fwyd i fwydo ein plant a'r cenedlaethau i ddod, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ar frys i sicrhau bod ein pridd yn flaenoriaeth, a bod ei iechyd nid yn unig yn cael ei warchod, ond ei wella.

Roeddem yn falch o glywed bod gan Gymru gyfundrefn profi pridd gymharol dda eisoes, ac y bydd profi yn rhan allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl o'r data o'r profion hyn yn cael ei wneud. Rhaid rhannu'r data a gesglir gyda ffermwyr yn y ffordd fwyaf hygyrch, a chydag arbenigwyr, er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o iechyd y pridd.

Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch ffermwyr tenant a sut y gellir eu hannog i wella eu tir. Clywsom fod canran y tir fferm sydd ar denantiaethau byrdymor yn debygol o gynyddu, ac felly bydd sicrhau bod y tenantiaid hynny'n cael eu cefnogi a'u cymell i fuddsoddi yn y tir yn hanfodol.

Fel gyda chynifer o heriau, mae cynllunio hefyd yn fater allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef i warchod ein tiroedd amaethyddol mwyaf ffrwythlon. Mae tensiwn naturiol rhwng yr angen i ddatblygu tir, er enghraifft i ddarparu mwy o dai neu ynni adnewyddadwy, ac i warchod ein tir fferm o'r ansawdd uchaf. Er bod polisi cynllunio yn anelu at warchod ein tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, rydym yn pryderu nad yw hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymyrryd i atgyfnerthu'r hierarchaeth hon.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i gyfrannu i'r ymchwiliad pwysig hwn.

**Andrew RT Davies MS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae profi'r pridd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle gwych i gynyddu ein dealltwriaeth o bridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhannu data iechyd y pridd o'r profion hynny ac unrhyw brofion y mae'n eu comisiynu gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn y ffordd fwyaf hygyrch er mwyn gwella rheolaeth leol o iechyd y pridd. Dylai hefyd edrych ar sut y gellir rhannu data o brofion a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydag arbenigwyr i gynyddu'r ddealltwriaeth o iechyd ein pridd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol tra'n parchu preifatrwydd a chyfrinachedd masnachol. ....... Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn annog ac yn cefnogi ffermwyr tenant yn llawn i wella'r pridd y maent yn ei ffermio. Gallai hyn gynnwys cymorth ariannol a'u cefnogi i gael ardystiadau a fydd yn cynyddu gwerth eu cynhyrchion. ........ Tudalen 21

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith i gefnogi swyddogion cynllunio sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau i ddefnyddio tir amaethyddol. Dylid datblygu'r fframwaith hwn gyda'r nod o gadw'r tir gorau ar gyfer defnydd amaethyddol, pennu blaenoriaethau rhwng defnyddiau a bod yn barod ar gyfer y dyfodol o safbwynt newid hinsawdd. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data a mapiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben. ........ Tudalen 29

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei chynlluniau i annog ffermwyr nad ydynt yn ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd eu pridd. Fel rhan o hyn, dylai fanylu ar ei chynlluniau ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys rhoi GAEC 4 a 5 ar sail statudol. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r canllawiau ynghylch iechyd y pridd. Fel rhan o hyn, dylai ystyried creu safon ofynnol wirfoddol ar gyfer iechyd y pridd y byddai wedyn yn ei defnyddio i fesur cynnydd, gyda'r posibilrwydd y gallai'r safon wirfoddol hon ddod yn safon ofynnol statudol os na chyflawnir cynnydd. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, sicrhau bod cyngor o ansawdd uchel ar gael i ffermwyr sy'n archwilio'r farchnad credyd carbon. ........ Tudalen 39

# Casgliadau

**Casgliad 1.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Cymru yn arweinydd byd-eang o ran profi pridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod y safle hwnnw'n cael ei gadw. I wneud hyn, dylai archwilio arfer gorau o ran rhannu gwybodaeth o Gynllun Iechyd Maetholion Pridd Gogledd Iwerddon ac edrych ar sut y gellir ehangu'r data a gesglir i gynnwys ystyried cynyddu dyfnder samplau pridd a gymerir fel rhan o ERAMMP a gwella prosesau monitro bioamrywiaeth y pridd. Tudalen 14

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu gofynion profi'r pridd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gweithredir ar y canlyniadau drwy gyllid, neu gyngor ac arweiniad ar sut y gall ffermwyr wella eu tir, neu gyfuniad o'r ddau. Tudalen 22

**Casgliad 3.** Dylai'r Llywodraeth nesaf archwilio awgrymiadau'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur o ran gwella iechyd y pridd ac ystyried sut y gellid eu hymgorffori mewn fersiynau yn y dyfodol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Tudalen 22

**Casgliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â DEFRA a dilyn datblygiad a gweithrediad ei Fframwaith Defnydd Tir. Tudalen 29

**Casgliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n union pa safonau GAEC fydd yn berthnasol i hawlwyr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy Tudalen 33

**Casgliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu'r dirwedd fuddsoddi breifat, gyda'r bwriad o archwilio manteision cymharol symud o gredydau carbon i gadwyni gwerth. Tudalen 39

# 1. Y cefndir

**1.** Nodir yn aml mai dim ond 100, 60, neu hyd yn oed 30 o gynaeafau sydd ar ôl yn y byd. Nid yw'r sail wyddonol i honiadau o'r fath yn glir. Er hynny,[1] mae'n wir yr amcangyfrifir bod dirywiad pridd ledled Cymru a Lloegr yn costio dros biliwn o bunnoedd y flwyddyn.[2]

**2.** Pridd yw ased cyfalaf mwyaf arwyddocaol ffermwyr. Mae'n hanfodol ar gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy, yn ogystal ag atafaelu carbon, atal llifogydd a bioamrywiaeth. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar gyflwr presennol pridd Cymru a sut y gallwn sicrhau bod gennym dir iach i gefnogi sector amaethyddol iach a chyflawni'r amcanion hollbwysig eraill hyn.

**3.** Dyma gylch gwaith yr ymchwiliad hwn:

- rôl a chyflwr priddoedd mewn systemau amaethyddol;
- monitro iechyd y pridd;
- dosbarthu priddoedd ar gyfer defnydd tir;
- y mecanweithiau polisi a deddfwriaethol i amddiffyn priddoedd a thir cynhyrchiol (gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a pholisi cynllunio (ymhlith eraill));
- y potensial ar gyfer fframweithiau cyfreithiol a thargedau ar gyfer priddoedd.

**4.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth ym mis Mai a mis Mehefin 2025. Clywodd yr Aelodau gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys academyddion, sefydliadau amgylcheddol, cynrychiolwyr ffermio a Llywodraeth Cymru.

**5.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.

[1] Ourworldindata.com Ai dim ond 60 o gynaeafau sydd gennym ar ôl? (Saesneg yn unig)
[2] Cyfoeth Naturiol Cymru Gwarchod dŵr a phridd trwy reoli tir yn gynaliadwy a ffermio

# 2. Pwysigrwydd y pridd

**6.** Nododd yr Athro Bridget Emmett yn gryno bwysigrwydd sylfaenol pridd a pham mae angen iddo fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

> *"Soil is the main capital asset all farmers in Wales have. That's the basis of everything that they do, and it forms really, really slowly. So, every bit of soil out there has been formed in the last 11,000 years, and it grows really slowly. So, that means it's not not renewable, but it renews at a very, very low rate. Every time you see that brown sludge going off a field and into a river and what have you, it should make you cry. That's just a disaster. That's hundreds of years of nature's work, just flowing down into a river and off the field … It's essential for our food production, but it's also really important for our general well-being. It's capturing soil and holding soil. It's regulating water so we don't get such rapid rain flood into the rivers.*
>
> *Also, the most recent statistic, which is just a bit jaw-dropping, is that 60 per cent of global biodiversity is thought to live in soil. Just think of that. Yet, in any of our biodiversity strategies, do we ever talk about soil biodiversity? Most of, for example, our antibiotics, the most commonly used antibiotics, have all been derived from soil micro-organisms. So, it is essential to protect for our food system, for our farming industry, but also for all of our well-being."*[3]

[3] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraffau 11-12

# 3. Monitro'r pridd

### Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd

**7.** Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP), dan arweiniad Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU ar ran Llywodraeth Cymru, yn darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu polisïau. Mae'r Rhaglen wedi cyflwyno sawl adroddiad i Lywodraeth Cymru ar iechyd y pridd yng Nghymru.[4]

**8.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd ERAMMP 'Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir' (Saesneg yn unig) sy'n dangos statws a thueddiadau iechyd y pridd yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf, yn gysylltiedig â rhaglenni monitro a ddechreuodd yn y 1970au.[5] Cyfeiriwyd at ddata o hyn ac allbwn arall ERAMMP yn helaeth mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn.

**9.** Clywodd y Pwyllgor lawer o sylwadau cadarnhaol ar waith ERAMMP. Pan holwyd y Gynghrair Priddoedd Cynaliadwy a oedd wedi'i 'siomi gan raglen monitro a modelu Llywodraeth Cymru, a wnaed gan ERAMMP', atebodd i'r gwrthwyneb:

> *"I'm overwhelmed by it. I think it's wonderful, because you have one. Other nations do not have change data; we do not know for sure in which direction things are going. We have what we see, but we don't have clear change data going back, and you need data going back in time because you need to model over that climate change and all sorts of other things—land use change. And so I applaud Wales."*[6]

**10.** Cefnogwyd y farn gadarnhaol hon o ERAMMP gan dystion eraill. Awgrymwyd y gallai samplu ERAMMP fynd ymhellach mewn byd delfrydol. Dywedodd yr Athro Prysor Williams fod y 'mesuriadau o fewn ERAMMP o'r 15cm uchaf o'r pridd'. Cred, yn ddelfrydol, pe bai'r gyllideb yno, y byddai ERAMMP 'yn hoffi samplu i ddyfnder pridd mwy'. Dywedodd y gallai hyn ddarparu mwy o fewnwelediad i'r 'potensial o atafaelu carbon dyfnach ym mhriddoedd Cymru'.[7]

**11.** Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) sylw at y ffaith bod Panel Carbon y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru wella ei rhaglen monitro pridd i fodloni safonau cydymffurfiaeth â Chonfensiwn

[4] www.erammp.wales pridd a mawn
[5] www.erammp.wales Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir
[6] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 40
[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraffau 97-99

Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (UNFCCC) i asesu carbon pridd i o leiaf 30cm.[8]

**12.** Awgrymodd yr Athro Williams a'r Athro Emmett ill dau[9] y gallai ERAMMP wneud mwy i fonitro bioamrywiaeth o fewn priddoedd. Dywedodd yr Athro Williams wrth yr Aelodau os ydynt am gael gwybod am iechyd y pridd, mae 'angen gwybod am fioamrywiaeth y pridd'. Aeth ymlaen i egluro bod bioamrywiaeth yn 'rheolydd mawr o ran sut mae'r pridd yn gweithredu, y gronfa faetholion ac ati, ac mae hefyd yn cynnwys y gyfran fyw, y fioleg weithredol'. Dywed fod deall cyfansoddiad y we fwyd honno yn dweud 'popeth sydd angen ei wybod am sut mae'r system honno'n mynd i ymddwyn'. Fodd bynnag, rhybuddiodd na fyddai hyn yn hawdd nac yn rhad; dywedodd wrth yr Aelodau fod angen 'talu am hynny', ac yn anffodus mae'n rhywbeth y dylid ei 'gynnwys yn y rhaglen fonitro'.[10]

### Defnyddio data monitro'r pridd a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**13.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd FUW bryderon:

> *"the vast majority of this [ERAMMP and Soil Policy Evidence Programme[11]] data and detail is not communicated back to the farmers managing these soils, representing a missed opportunity for engagement, knowledge sharing and monitoring. However, accurate and cost-effective monitoring of soil carbon through comparable and repeatable measurements is challenging at the farm-level."*[12]

**14.** Cyfeiriodd at Gynllun Iechyd Maetholion Pridd Gogledd Iwerddon fel enghraifft o ble roedd y data hyn wedi'u rhannu'n dda. Dywedodd wrth yr Aelodau mai dyma'r 'rhaglen samplu pridd sylfaenol fwyaf a gynhaliwyd erioed' ac mae wedi cael 92% o ffermwyr yn ei defnyddio, yn rhannol oherwydd cyflwyno data pridd ar lefel fferm a lefel cae ar ffrwythlondeb a stociau carbon, ynghyd â mapiau risg dŵr ffo LIDAR a mapiau biomás uwchben y ddaear.[13]

**15.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn helpu i fynd i'r afael â phryderon yr FUW ynghylch rhannu gwybodaeth. Dywedodd y byddai profi'r pridd yn rhan o'r haen gyffredinol, a bod y

[8] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)
[9] Dylid nodi mai'r Athro Emmet yw'r Arweinydd Gwyddonol ar gyfer ERAMMP
[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 156
[11] Rhaglen dystiolaeth polisi pridd yw rhaglen dystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyflwr y pridd a sut mae arferion amaethyddol yn effeithio arno.
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)

Cynllun wedi'i ddylunio i weithio gyda'r ffermwr a rhannu'r data hyn gyda hwy. Cred fod y sylwadau'n adlewyrchu arfer y gorffennol yn hytrach na'r hyn sy'n digwydd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[14]

**16.** Ymhelaethodd swyddog ar hyn:

> *"One of the problems in the past is that soil testing results were never shared with the Welsh Government, or they were in a paper format, and it was very hard to get all of that data, and rationalise it, and put it into a digital format to be able to use and interrogate. But, hopefully, as the Deputy First Minister is saying, we'll have a step change in that, if that is agreed and taken forward through the scheme, because that can be supplemented into the ERAMMP national data, and we get these national trends, and we can start looking at local specifics on what's going on, and then be able to shape future interventions and policy, the knowledge transfer offer, and the range of actions that the SFS will inevitably evolve into."*[15]

**17.** Gweithred Gyffredinol 1 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw "Profi pridd ar dir wedi'i wella er mwyn llywio cynlluniau iechyd pridd ar gyfer eich fferm".[16]

> *"Trwy wella strwythur y pridd a chynyddu'r deunydd organig ynddo, bydd eich pridd yn gallu amsugno a rheoli dŵr yn well, gan wneud eich tir pori'n fwy gwydn fel na fydd angen ichi brynu cymaint o borthiant ar gyfer eich anifeiliaid. Am y rheswm hwn, Gweithred Gyffredinol gyntaf y Cynllun yw gwella iechyd y pridd – sy'n dechrau gyda phrofion pridd. Bydd hynny, os nad ydych eisoes yn cynnal profion, yn eich helpu i ddeall eich pridd yn well a defnyddio'r wybodaeth i benderfynu beth i'w wneud i wella iechyd eich pridd. Gwella pridd yw sail pob un o'n huchelgeisiau o ran cynhyrchu bwyd, natur a hinsawdd."*[17]

**18.** Mae Gweithred Gyffredinol 1 y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys "[c]ynnal profion ar bridd ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol – tir sydd wedi cael neu a allai gael gwrtaith (naturiol ac artiffisial) neu galch wedi'i roi arno." Mae disgrifiad y cynllun yn mynd ymlaen i egluro "Er mwyn gwneud y weithred hon,

[14] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraffau 349-350
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 355
[16] Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun
[17] Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun

gofynnwn ichi brofi pridd o leiaf 20% o'r tir sydd wedi'i wella ar eich fferm, bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu y caiff yr holl dir perthnasol ei brofi mewn cylchdro o bum mlynedd. Mae'n dderbyniol profi mwy nag 20% o'r tir bob blwyddyn, os dymunwch wneud hynny. Bydd angen ichi gasglu samplau pridd trwy ddilyn y drefn safonol a ddisgrifir yn y Nodiadau Technegol."[18]

**19.** Tynnodd NFU Cymru ac FUW sylw at bwysigrwydd diogelu data mewn perthynas â rhannu data'r pridd a'u defnydd.

## Ein barn ni

Er ei fod yn aml yn cael ei anwybyddu, pridd yw un o asedau naturiol pwysicaf Cymru. Mae'n cymryd llawer o amser i ailgynhyrchu pridd ac mae'n hanfodol i dyfu bwyd a chynnal ein poblogaeth. Un o themâu'r adroddiad hwn yw'r angen i warchod a gwella ein pridd a sicrhau ei fod yn parhau i allu cynnal ein diwydiant ffermio, storio carbon, atal llifogydd, a chadw a gwella'r fioamrywiaeth hanfodol y mae'n ei chartrefu ar hyn o bryd ar gyfer nawr ac i'r dyfodol.

Er mwyn gwarchod a gwella ein pridd rhaid inni ddeall beth yw'r llinell sylfaen bresennol a ble mae angen gwneud gwaith i wella. Roeddem yn falch o glywed yr adborth cadarnhaol am ERAMMP a bod tystion yn teimlo bod Cymru yn cymryd profi o ddifrif drwy ei wneud yn Weithred Gyffredinol 1 yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rhaid i Lywodraeth Cymru beidio â llaesu ei dwylo. Mae'n hanfodol bod canlyniadau profion pridd yn cael eu rhannu â ffermwyr a rheolwyr tir eraill - i lywio penderfyniadau fferm unigol a hyrwyddo rheoli iechyd y pridd yn ehangach. Roeddem yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio ar hyn fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn manteisio i'r eithaf ar y data newydd o brofion pridd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Rhaid i'r data hyn gael eu casglu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a'u rhannu gyda ffermwyr a rhyngddynt. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried pryderon ynghylch preifatrwydd a sensitifrwydd masnachol wrth rannu'r wybodaeth hon.

Er mwyn gwella ein prosesau monitro pridd, a chadw Cymru ar flaen y gad yn y maes, dylai Llywodraeth Cymru ystyried archwilio'r arfer da o Gynllun Iechyd Maetholion Pridd Gogledd Iwerddon a chynyddu dyfnder y samplau pridd a

[18] Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun

gymerir fel rhan o ERAMMP. Dylai hefyd ystyried gwella prosesau monitro bioamrywiaeth o fewn priddoedd.

**Casgliad 1.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Cymru yn arweinydd byd-eang o ran profi pridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod y safle hwnnw'n cael ei gadw. I wneud hyn, dylai archwilio arfer gorau o ran rhannu gwybodaeth o Gynllun Iechyd Maetholion Pridd Gogledd Iwerddon ac edrych ar sut y gellir ehangu'r data a gesglir i gynnwys ystyried cynyddu dyfnder samplau pridd a gymerir fel rhan o ERAMMP a gwella prosesau monitro bioamrywiaeth y pridd.

**Argymhelliad 1.** Mae profi'r pridd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle gwych i gynyddu ein dealltwriaeth o bridd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn rhannu data iechyd y pridd o'r profion hynny ac unrhyw brofion y mae'n eu comisiynu gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill yn y ffordd fwyaf hygyrch er mwyn gwella rheolaeth leol o iechyd y pridd. Dylai hefyd edrych ar sut y gellir rhannu data o brofion a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydag arbenigwyr i gynyddu'r ddealltwriaeth o iechyd ein pridd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol tra'n parchu preifatrwydd a chyfrinachedd masnachol.

# 4. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

## Profi'r pridd fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**20.** Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fecanwaith polisi allweddol i warchod priddoedd. Er bod cynnwys profion pridd yn y Cynllun wedi'i groesawu gan randdeiliaid, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth y gellid gwneud mwy fel rhan o'r Cynllun.

## Ffermwyr tenant

**21.** Dywedodd FUW ac NFU Cymru fod ffermwyr tenant yn llai tebygol o gynnal profion pridd gan eu bod yn llai abl i ymgymryd â chamau gwella'r pridd. Rhybuddiwyd y gallai hyn fod yn broblem fawr unwaith y daw prosesau profi'r pridd yn arfer ffermio safonol. Dywedodd NFU Cymru wrth yr Aelodau:

> *"We do need to be very concerned about the length of tenancies on farms. Lots more land is turning over to short what we call FBTs or farm business tenancies, where they could be one or two years. If you have only got some land for a year, you are unlikely to soil test it, because (1) you won't really have time to react to it, but, if you did, you're not really going to see the benefits from it. I think we should be particularly alive to that if inheritance tax goes through in its current format, because we are going to see more short-term FBTs in our estimation, particularly because we're already seeing people who've got large property portfolios who are now more tempted to go and buy agricultural land, as opposed to a shopping mall or whatever it may be, and they are unlikely to want to put long-term tenancies on this land. There'll be short-term FBTs, and I think that will be a detriment to our soils, let alone our food production."*[19]

**22.** O ganlyniad i glywed y dystiolaeth hon, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru i ganfod pa arfer da y gallai ei rannu o'r gwaith datgarboneiddio gyda'r nifer fawr o ffermwyr tenant. Dywedodd Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru wrth yr Aelodau ei bod yn defnyddio'r cytundebau tenantiaeth i ddylanwadu ar arferion rheoli tir. Pan fydd newid tenantiaeth ar y gweill, byddai cymalau a chyflwr y tir yn cael eu hadolygu gan

[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 249

staff sydd ag ystod o arbenigedd i benderfynu a yw'r tir hwnnw'n cyflawni, neu'n symud tuag at gyflawni, yr amcanion a ddymunir. Dywedodd:

> *"We recognise the positive financial implications that farm businesses can achieve when soil health is optimal, lessening the need for costly inputs and improving yields and livestock health. As a result, we also encourage our tenants to participate in agri-environment schemes or explore accreditations such as Pasture For Life or Organic which facilitate improvements to soil health through environmentally sensitive land management practices but may also offer premiums for products."*[20]

**Camau gweithredu y tu hwnt i brofi**

**23.** Dywedodd yr Athro Williams nad oes amheuaeth bod angen gwella nifer y bobl sy'n profi'r pridd a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd arno. Awgrymodd y gallai ffermwyr adrodd ar yr hyn yr oeddent wedi'i wneud ar gefn y profion, yn hytrach na 'thicio blwch i ddweud eu bod wedi cael prawf pridd'.[21]

**24.** Sylwodd fod rhai ffermwyr wedi'u dal mewn cylch dieflig ac nad oes ganddynt y cyfalaf i weithredu ar y prawf. Eglurodd fod calch (cyflyrydd pridd a rheolydd asidedd) yn 'talu amdano'i hun mewn gwirionedd', ond ei fod yn fuddsoddiad cyfalaf untro mawr, ac felly awgrymodd y gallai gael ei gwmpasu gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[22]

**25.** Croesawodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru y Weithred Gyffredinol ar brofi'r pridd ond rhybuddiodd hefyd am yr angen am gamau gweithredu y tu hwnt i brofion:

> *"I don't think this will necessarily lead to big gains in increased soil health. I think the testing and planning is great, it's a great place to start, but the suitable advice and support to act on the recommendations of the results is really important."*[23]

**26.** Cytunodd Cymdeithas y Pridd fod angen i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sicrhau bod profion yn arwain at gamau gweithredu:

---

[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru (Saesneg yn unig)
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 57
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 58
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 52

> *"The key, though, is how do you turn those plans into action. And that's where the support and the incentive, and the guidance, in particular, to act on soil health plans and pull from some of the other layers that, hopefully, will have support for sustainable farming practices, which can encourage soil health—. So, it's the Optional and Collaborative layer area that will really reap the benefits of farmers understanding more about their soils."*[24]

**Gwella pridd dros amser wrth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ddatblygu**

**27.** Yn y dystiolaeth ysgrifenedig, tynnodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur sylw at y ffaith wrth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy esblygu, y gallai camau gweithredu Dewisol neu Gydweithredol penodol sy'n dangos buddion sylweddol i iechyd y pridd, dros amser, ddod yn rhagofynion i ymuno â Haen Gyffredinol y Cynllun, yn enwedig os nad yw eu defnydd yn ddigonol i gyrraedd nodau cenedlaethol.[25]

**28.** Ymhelaethodd ar hyn mewn sesiwn tystiolaeth lafar gydag awgrymiadau penodol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd pridd Cymru:

- dangosyddion sy'n gysylltiedig ag iechyd y pridd i'w cynnwys yng Ngweithred Gyffredinol 3 (Meincnodi) i roi gwell dealltwriaeth o iechyd y pridd ledled Cymru;
- gallai Gweithred Gyffredinol 4 (Datblygiad Proffesiynol Parhaus) gynnwys hyfforddiant iechyd y pridd neu fel modiwl mewn cwrs gorfodol;
- haenau Cydweithredol a Dewisol i wella neu hwyluso technegau ffermio adfywiol ac atebion sy'n seiliedig ar natur i gynyddu iechyd y pridd. Gallai hyn gynnwys cnydau gorchudd aml-rywogaeth a defnyddio gwrteithiau organig;
- hwyluso rheolaeth strategol o bori i fynd i'r afael â chywasgu pridd; a
- phrofion pridd mwy uchelgeisiol yn yr haen Ddewisol hefyd, gan ystyried cyflwr biolegol a ffisegol y pridd, nid dim ond edrych ar y dadansoddiad cemegol.[26]

---

[24] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 29
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (Saesneg yn unig)
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraffau 51-61

**29.** Awgrymodd NFU Cymru a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad fod llawer o ffermio adfywiol eisoes yn digwydd ledled Cymru. Dywedodd NFU Cymru y cred mai'r peth pwysicaf o ran Cymru yw'r ffaith bod llawer o ffermwyr yn ffermwyr adfywiol. Cred mai'r broblem yw nad oes llawer o ffermwyr yn uniaethu â'r ymadrodd hwnnw, oherwydd nad yw'n golygu llawer. Aeth ymlaen i egluro mai'r tair egwyddor sylfaenol o ran ffermio adfywiol yw gorchudd tir cyson neu gyn lleied o aflonyddwch â phosibl i'r ddaear, sydd wedi arwain at lawer yn symud i ffwrdd i systemau dim troi neu systemau bas-droi lle bo hynny'n bosibl.[27]

**30.** Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad fod hyblygrwydd o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn caniatáu i bobl wneud y math hwn o beth, boed hynny'n bori trwm a chnydau newydd. Dywedodd hefyd, tra bod gwaith datblygu wedi'i wneud ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, nad oes darpariaeth ar gyfer rhai o'r egwyddorion neu'r arferion adfywiol hyn o fewn y Cynllun ar hyn o bryd, ond fod hyn yn bosibl gyda hyblygrwydd. Rhybuddiodd y Gymdeithas na ddylem boeni'n ormodol am enwau mathau penodol o ffermio, ond y dylid caniatáu'r holl arferion gwahanol sydd wedi'u gwneud ers blynyddoedd yng Nghymru ac ledled y DU.[28]

### Atafaelu carbon

**31.** Mae gwella prosesau atafaelu carbon ar ffermydd yn un o nodau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywed y Cynllun: "Mae gan y cynllun rôl allweddol o ran helpu ffermwyr i ddeall yn well gydbwysedd carbon eu ffermydd ac effaith newid dulliau ffermio, a hefyd eu helpu i fabwysiadu technegau ar gyfer cynyddu cyfleoedd i ddal a storio carbon a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr."[29]

**32.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth nad yw rôl y pridd wrth atafaelu carbon yn syml. Dywedodd Dr William Stiles:

> *"It is a contested topic … as to how much carbon we can actually get into soil, whether we are able to increase it. I suppose there's a difference to consider between the concept of … where we can get to saturation, but also what we can do in terms of restoration."*[30]

**33.** Dywedodd wrth y Pwyllgor, wrth gynyddu lefelau'r deunydd organig mewn llawer o'n glaswelltir dihalog yng Nghymru, nad yw'n cyflawni llawer. Dywed ein bod mewn amgylchedd lle mae mewnbwn deunydd organig yn uchel. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud os oes system sy'n iach ac mewn cyflwr

[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 298
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 303
[29] Llywodraeth Cymru, Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 86

cydbwysedd, neu mewn cyflwr cyson, y dylai nifer yr allbynnau fod yn 'hafal i nifer y mewnbynnau a bydd yn aros yn gymharol sefydlog'. Dywed os edrychir ar bridd sydd wedi diraddio, fel pridd âr, lle bydd yr echdynnu drwy gynaeafu yn golygu bod y deunydd organig yn lleihau, yna mae 'potensial enfawr i gynyddu'r cynnwys deunydd organig ac, felly, cynnwys carbon y pridd hwnnw'.[31]

**34.** Amlygodd yr Athro Emmett mai'r prif bwynt am briddoedd a charbon pridd yw na ddylent fod y ffynhonnell net; dylent fod yn ein helpu ni. Ar hyn o bryd, maent yn cyfrannu, a dywed fod hynny'n 'syfrdanol'.[32] Dywedodd, yng Nghymru:

> *"Soils are a net contributor. Because arables are emitting, and peatlands. Peatlands are 4 per cent of Wales, but they're contributing 9 per cent of the net agriculture and land use, land use change and forestry inventory. As Will said, a lot of our soils are just stable, a lot of our pastures, we can't find trends in those, but the arable is going down, the peatland is going down. So, the first thing is that we must stop that. And then the question is how can you get more carbon into soil."*[33]

**35.** Gwrthododd yr undebau ffermio y dystiolaeth hon. Dywedodd NFU Cymru yr hoffai i'r honiad hwnnw fod yn destun mwy o waith craffu, oherwydd byddai'r wybodaeth a welwyd – yn enwedig o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, a ddaeth allan y diwrnod cyn rhoi tystiolaeth – yn awgrymu, mewn gwirionedd, fod carbon mewn priddoedd yn sefydlog a, dros gyfnodau hanesyddol o amser, ei fod yn gostwng ychydig.[34]

**36.** Ychwanegodd FUW fod y tueddiadau cenedlaethol diweddaraf a gyhoeddwyd gan ERAMMP yn dangos bod uwchbridd cenedlaethol Cymru yn 'sefydlog'. Roedd y colledion mewn gwirionedd o fewn tir âr, ac mae'n hysbys bod mwy o ehangu trefol yn digwydd hefyd, ac felly cred y gallai fod yn 'gysylltiedig â hynny ac â thir âr o bosibl'. Dywed fod colled carbon ledled Cymru a Lloegr, ac y gellir ei leoleiddio. Dywed ei fod yn dibynnu'n union beth sy'n digwydd. Ond, fel term cyffredinol, dywed fod carbon yr uwchbridd yn 'sefydlog'. Aeth ymlaen i ddweud bod hwn yn rheswm arall dros gasglu data gyda darlleniadau pridd dyfnach.[35]

---

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 87
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 90
[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 92
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, Paragraff 187
[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraffau 189-190

**37.** Roedd yr Athro Emmet yn cefnogi honiad Dr Williams fod y math o bridd yn bwysig ac na ellir cael un ateb i bawb, gyda gwahanol astudiaethau'n darparu gwahanol ganlyniadau gan fod 'y man cychwyn yn wahanol, roedd yr hinsawdd yn wahanol, roedd y pridd yn wahanol, ac roedd y rheolaeth yn wahanol'.[36]

**38.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud bod ei hamcangyfrif y gallai wrthbwyso 5 i 10 y cant o allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddiaeth ar hyn o bryd, a bod carbon yn ddangosydd allweddol o iechyd y pridd, ac felly gellid hyrwyddo cael mwy o garbon yn y pridd fel ffordd o wella prosesau cynhyrchu bwyd gyda budd eilaidd o wrthbwyso carbon.[37]

**39.** Rhybuddiodd yr Athro Emmet y Pwyllgor:

> *"There are some people, unfortunately, who go around that say, 'With soil carbon and a few hedges, we can just carry on as we're doing before and get to net zero.' Most people I know say that is not correct."*[38]

**40.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wella iechyd pridd Cymru:

> *"Already, we've got a range of proposed measures, such as the integrated pest management plan, habitat management actions, capital support for tree planting and hedgerow creation—all of these support multiple benefits, which include improving soil health. So, they need to be pulled together. But we can also go further than the Universal Actions as well, because, as we develop, as we're currently doing in live time, the Collaborative and the Optional layers, we can look at—. For example, one of the proposals is capital funding within the Optional layer on the improved soil health and multispecies crop cover theme. These start to, then, tie together. It will be a step change at the Universal level—and I think it's important to say that—in the testing, the dissemination of information, using that information to improve soils, simply as a point of entry to this.*

[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 93
[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 95
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 96

> *But above and beyond that, we can do even more. And you are right in what you're saying. The point is well made; these pieces need to be seen as part of the ecology of the farm, not one individual element."[39]*

## Ein barn ni

Rydym yn falch bod profi pridd yn Weithred Gyffredinol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid na fydd profion yn unig yn gwella iechyd y pridd a bod yn rhaid eu hategu â chefnogaeth i ffermwyr a rheolwyr tir weithredu ar y canfyddiadau. Gallai'r gefnogaeth hon fod ar ffurf cyngor ac arweiniad neu gyllid cyfalaf ar gyfer rheoli drwy lefel Ddewisol y cynllun fel yr awgrymwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog.

Un o bryderon hirdymor y Pwyllgor yw sut y byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cefnogi ffermwyr tenant. Roeddem yn poeni o'r dystiolaeth na fyddai gan denantiaid fawr o gymhelliant i wella'r pridd ar y tir y maent yn ei rentu. Wrth inni weld cynnydd mewn tenantiaethau byrdymor, mae'n hynod bwysig yr anogir y tenantiaid hynny i wella'r tir y maent yn ei rentu, yn hytrach na'i ddisbyddu. Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella'r cymhelliant i ffermwyr tenant naill ai drwy gyllid uniongyrchol drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu drwy gefnogi ffermwyr tenant i gyflawni achrediad tebyg i'r anogaeth a gynigir gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru i'w thenantiaid.

Mae gennym ddiddordeb yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol. Mae llawer o le i wella iechyd pridd Cymru drwy'r Cynllun, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth nesaf. I'r perwyl hwn credwn y dylai'r Llywodraeth nesaf ystyried awgrymiadau'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur o ran gwella iechyd y pridd a chynnal y strwythur a'r ffrwythlondeb o fewn y pridd.

Bydd gwella iechyd y pridd yn cyflwyno sawl budd, gan gynnwys cynyddu cynhyrchiant, yn ogystal â bioamrywiaeth ac atafaelu carbon. Un o'r nodau allweddol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw symud y pridd o fod yn gynhyrchydd net o garbon i fod yn sinc carbon a'r dull wedi'i deilwra a fydd yn angenrheidiol yn dibynnu ar gyfansoddiad y pridd.

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn annog ac yn cefnogi ffermwyr tenant yn llawn i wella'r pridd y maent yn ei ffermio. Gallai hyn gynnwys cymorth ariannol a'u cefnogi i gael ardystiadau a fydd yn cynyddu gwerth eu cynhyrchion.


[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraffau 358 a 359

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu gofynion profi'r pridd yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gweithredir ar y canlyniadau drwy gyllid, neu gyngor ac arweiniad ar sut y gall ffermwyr wella eu tir, neu gyfuniad o'r ddau.

**Casgliad 3.** Dylai'r Llywodraeth nesaf archwilio awgrymiadau'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur o ran gwella iechyd y pridd ac ystyried sut y gellid eu hymgorffori mewn fersiynau yn y dyfodol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

# 5. Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas

**Ffigur 1: Map Dosbarthiad Tir Amaethyddol Cymru**



**Glas tywyll - mae gwyrdd tywyll yn dynodi graddau 1-3a, gwyrdd golau - brown 3b - 5 a choch yn dynodi trefol**[40]

**41.** Mae tir fferm yng Nghymru (a Lloegr) wedi'i raddio o dan y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Datblygwyd y Dosbarthiad hwn yn y 1960au gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac mae'n graddio tir o Radd 1 o'r ansawdd uchaf ar gyfer tyfu bwyd i Radd 5 o dir garw o ansawdd gwael iawn. Mae'r rhan fwyaf o dir yng Nghymru a Lloegr yn Radd 3, tir sy'n tyfu'n dda, ac felly is-rannwyd y radd honno ym 1988 i roi mwy o bwyslais. O dan bolisi cynllunio,

[40] Data Hinsawdd Rhagolygon Hinsawdd y DU © Y Swyddfa Feteorolegol 2019
Data Pridd © Prifysgol Cranfield 2019

ystyrir tir sydd wedi'i raddio fel Dosbarthiad Tir Amaethyddol 1, 2 a 3a, ac yn aml cyfeirir ato, fel y tir 'gorau a mwyaf amlbwrpas'.

### Polisi cynllunio

**42.** Nod polisi cynllunio Cymru yw gwarchod y tir amaethyddol o'r ansawdd gorau rhag datblygiad gyda'r bwriad o'i gadw at ddefnydd amaethyddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> *Tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol.*
>
> *Wrth ystyried y drefn chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig.*[41]

**43.** Mae'n nodi'n glir "Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad". Mae'r polisi yn caniatáu rhywfaint o le i ddatblygu tir gradd uwch lle mae'n rhan o ddynodiad sy'n "drech na'r ystyriaethau amaethyddol" ond mae'n amlwg y dylai datblygiad fel arfer fod ar y tir gradd is.[42]

**44.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor fod rhywfaint o'r tir gorau a mwyaf amlbwrpas yng Nghymru wedi'i golli i ddatblygiad, ac felly efallai nad yw'r polisi hwn yn gweithio fel y bwriadwyd. Dywedodd yr Athro Emmett wrth y Pwyllgor:

> *"We've used satellite data to look at how much arable and improved grassland do we have and how much urban and woodland do we have. And in the report, we quite clearly show … that urban has expanded, and woodland has expanded, and we've lost improved grassland and we've lost arable land. And that arable and improved grassland tends to be on class 1, 2 and 3a."*[43]

**45.** Ni allai'r Athro Emmett ddweud wrth y Pwyllgor yn union beth oedd achos hyn, ond awgrymodd fod tir trefol bellach yn 6 y cant o Gymru a dim ond 4 y cant yw tir âr. Dywed fod pethau'n newid, ond roedd yn gofyn y cwestiwn: "Ble rydyn ni'n rhoi ein trefi a'n dinasoedd?" Dywed ei fod yn tueddu i fod ar yr arfordir lle mae'r tir gwell, sy'n arwain at ei hail gwestiwn: "Ble rydyn ni eisiau i'n tai fod?" Cred

[41] Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 12, Chwefror 2024
[42] Polisi Cynllunio Cymru, rhifyn 12, Chwefror 2024
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 41

fod y rhan fwyaf o bobl eu heisiau ble mae swyddi, ac mae hynny'n anochel yn golygu'r 'ymlusgo trefol'.[44]

**46.** Mae adroddiad ERAMMP[45] Tueddiadau Cenedlaethol Cymru a Gwerthusiad Glastir yn nodi cynnydd o 28,200ha (+29%) mewn gorchudd tir trefol sydd bellach yn cynrychioli 6% o Gymru a cholled o 48,900ha (-4%) o dir wedi'i wella mwyaf cynhyrchiol Cymru sydd bellach yn cynrychioli 44% o Gymru.

**47.** Adleisiodd NFU Cymru bryderon ynghylch colli tir amaethyddol o ansawdd uchel i ddatblygiad. Dywedodd wrth y Pwyllgor, os gellir llunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru, 'gellir llunio un arall sy'n helpu i warchod priddoedd mewn ffordd briodol.'[46] Tynnodd sylw at y canlynol:

> *"Potentially, people who are making planning decisions just aren't close enough to the pressures of food security to fully understand the ramifications, and they're thinking as much about other issues. It's trying to get that balance."*[47]

**48.** Awgrymodd NFU Cymru y canlynol:

> *"A decision-making framework is essential, really, so that everyone knows where they stand. It's not just for housing, this would be for renewable energy, if we're looking at solar parks, things like that, so that everyone knows where they stand. For pylons going across the middle of Wales, what are the impacts, what should be directing and driving our decisions?"*[48]

### Anghenion cystadleuol: datgarboneiddio ynni a chynhyrchu bwyd

**49.** Adleisiodd FUW y pryderon hyn gan ddweud yn ddiamau y bydd pwysau ar dir gorau a mwyaf amlbwrpas o ganlyniad i ynni adnewyddadwy trefol, mwynau a thir, datblygu a choedwigo, fodd bynnag, byddai FUW yn dadlau bod yn rhaid diogelu diogelwch bwyd yn y dyfodol.[49]

**50.** Er bod y ddwy undeb ffermio wedi mynegi pryderon ynghylch datblygiadau adnewyddadwy yn peri risg i ddiogelwch bwyd, dywedodd fod rhywfaint o ynni

[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 42
[45] Yr Athro Emmet yw'r Arweinydd Gwyddonol ar gyfer ERAMMP.
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 210
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 211
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 210
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)

adnewyddadwy yn bwysig i ffermio. Rhybuddiodd NFU Cymru yn erbyn deddfwriaeth sy'n gwahardd ynni adnewyddadwy, a dywedodd fod angen opsiwn canol pragmatig.[50] Dywedodd FUW wrth yr Aelodau ei bod wedi lobïo ers amser maith am fwy o gefnogaeth i ynni adnewyddadwy ar ffermydd. Dywed fod 'rhan ganol' yn creu llawer o sefyllfaoedd lle mae pawb ar eu hennill, 'yn lle gorfod mynd i lawr llwybr paneli solar yn plastro tir fferm'.[51]

**51.** Tynnodd Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad sylw at ymgynghoriad Llywodraeth y DU, gan DEFRA, ar ddull newydd o ddefnyddio tir yn Lloegr[52] i 'rymuso gwneuthurwyr penderfyniadau gyda'r pecyn cymorth i warchod y tir amaethyddol mwyaf cynhyrchiol a hybu diogelwch bwyd'. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn llywio datblygiad 'Fframwaith Defnydd Tir'. Roedd rhan o'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar welliannau sydd eu hangen ar ansawdd, argaeledd a hygyrchedd data Dosbarthiad Tir Amaethyddol i gefnogi penderfyniadau defnydd tir effeithiol.[53] [54]

### Graddio tir

**52.** Mynegodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru rai pryderon ynghylch data Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"fod yna gyfyngiadau yn y ffordd dyn ni'n mesur beth ydy'r tir amaethyddol gorau yng Nghymru ar hyn o bryd. O beth dwi'n ei ddeall, mae'r data hinsawdd sydd yn gysylltiedig â dosbarthu tir wedi dyddio. Dwi'n meddwl bod y data'n dyddio nôl rhwng 1941 ac 1980, felly dydy hynny ddim yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau mwyaf diweddar yn yr hinsawdd. Felly, o bosib, dyn ni'n goramcangyfrif neu tanamcangyfrif ansawdd peth o'n ffermdir gorau, a dwi'n meddwl bod y sgôp lle dyn ni'n deffinio'r tir gorau efallai yn ddiffygiol hefyd, lle dyn ni'n edrych ar gyfyngiadau ffisegol y tir. Ond i fod yn fwy holistig, efallai y dylem ni edrych ar agweddau fel iechyd pridd, gallu'r tir yna i fachu a storio carbon a gwasanaethau ecosystemol eraill tu hwnt i gynhyrchu bwyd hefyd."*[55]

**53.** Aeth ymlaen i ddweud bod y mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol "yn reit gyffredinol hefyd. Hynny yw, os dŷn ni rili isio edrych ar geisiadau cynllunio, allwn

[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 220
[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 222
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 225
[53] Llywodraeth y DU Llywodraeth yn lansio 'sgwrs genedlaethol' ar ddefnydd tir (Saesneg yn unig)
[54] Llywodraeth y DU Ymgynghoriad Defnydd Tir (Saesneg yn unig), Ionawr 2025
[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 87

ni ddim dibynnu ar y mapiau ALC. Dwi'n meddwl y bydd rhaid inni wneud arolygon ychydig bach mwy manwl, ar lefel cae, i ategu ceisiadau cynllunio".[56]

**54.** Awgrymodd Adroddiad y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol (2025) hefyd y dylid adolygu'r system Dosbarthiad Tir Amaethyddol gyda mwy o sylw i'r potensial ar gyfer arallgyfeirio bwyd a lledaeniad rhanbarthol.[57]

**55.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, rhybuddiodd FUW rhag canolbwyntio ar y tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn unig. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"other grades of land should not be disregarded or left unprotected for food production. Climate change is adding increasing stress to soil health on all types of land, particularly arable land which is generally classified as BMV. This is due to challenging growing conditions and extreme weather, which causes increased compaction or the loss of microbial activity due to drought, or increased levels of pests and pathogens from warmer, wetter weather. This will increase the need for other grades of land to 'fill the gap', whilst delivering on various other land use demands such as biodiversity, energy generation, carbon sequestration and development."*[58]

**56.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ei fod o'r farn bod y polisi cynllunio presennol ynghylch y tir gorau a mwyaf amlbwrpas yng Nghymru yn gadarn ac ar flaen y gad. Dywedodd wrth y Pwyllgor nad oedd y polisi presennol yn:

> *"outright ban on development, but it has to leap some very high hurdles. So it's not an outright ban because there are always tensions between development and other aspects, but what we can say is that the planning policy seeks to preserve BMV [best and most versatile] land as a finite resource, because we know it is, for the future. It also puts considerable weight on protecting such land from development because of that special importance. This scope and the importance of this policy is clarified in a 'Dear Chief Planning Officer' letter where it states that unless other significant material considerations indicate otherwise, it will be necessary to refuse permission. So, these bars are high. And we're ahead of the game, it's worth stressing as well. We think that we've got a really robust regime, and there have to be darn*

[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 88
[57] Y Comisiwn Parodrwydd Cenedlaethol, Rhag Ofn: lleihau'r bwlch gwydnwch bwyd sifil yn y DU (Saesneg yn unig), Chwefror 2025
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)

> *good reasons why somebody would say that the best quality land needs to be developed."*[59]

## Ein barn ni

Mae amrywiaeth o alwadau cystadleuol ar ein tir, gan gynnwys cynhyrchu bwyd, cynhyrchu a throsglwyddo ynni a datblygu ar gyfer tai, masnach neu ddefnyddiau diwydiannol eraill. Mae'n cael ei gydnabod yn eang ein bod yng nghanol argyfwng tai ond ar yr un pryd rhaid i'r syniad o sicrhau diogelwch bwyd fod yn flaenoriaeth absoliwt i unrhyw lywodraeth mewn unrhyw wlad. Mae dod o hyd i gydbwysedd rhwng y gofynion cystadleuol hyn yn her fawr.

Nid ydym yn credu y dylid gweithredu rheol gadarn, er enghraifft gwahardd datblygu ar rai graddau o dir. Fodd bynnag, mae ein tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac felly, nid yw'r system gynllunio bresennol yn gweithio cystal ag y dylai.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dylai'r fframwaith hwn gryfhau'r ysgogiad i wrthod caniatâd i ddatblygu'r graddau gorau o dir ond dylai hefyd edrych ar sut y gallem warchod tir gradd is a ffafrio'r 'llain lwyd'.

Mae datgarboneiddio'r grid ynni yn bwysig ac mae gan dir fferm rôl i'w chwarae yn hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod tensiwn eisoes rhwng datblygu tir ar gyfer ynni adnewyddadwy a chynhyrchu bwyd, a chredwn bod hyn yn debygol o ddod yn broblem fwy yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith gwneud penderfyniadau newydd fynd i'r afael â gwahanol fathau o ddefnydd tir a lle dylid blaenoriaethu un dros y llall.

Roeddem yn pryderu o glywed nad yw mapiau a data y Dosbarthiad Tir Amaethyddol o bosibl yn ddigon cryf i gefnogi penderfyniadau cynllunio. Dyma faes y dylai Llywodraeth Cymru ei archwilio a gweithredu arno os yw'n credu y gellid cryfhau'r data. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai ystyried sut y gallai dosbarthiadau tir newid yn y dyfodol, er enghraifft oherwydd newid hinsawdd.

Roedd gennym ddiddordeb yn ymgynghoriad DEFRA ynghylch Fframwaith Defnydd Tir. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda DEFRA i ddeall newidiadau y gallai fod yn eu gwneud a dysgu unrhyw wersi o'r gwaith hwn y gellid eu cymhwyso yng Nghymru.

[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 376

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith i gefnogi swyddogion cynllunio sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau i ddefnyddio tir amaethyddol. Dylid datblygu'r fframwaith hwn gyda'r nod o gadw'r tir gorau ar gyfer defnydd amaethyddol, pennu blaenoriaethau rhwng defnyddiau a bod yn barod ar gyfer y dyfodol o safbwynt newid hinsawdd.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data a mapiau'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben.

**Casgliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â DEFRA a dilyn datblygiad a gweithrediad ei Fframwaith Defnydd Tir.

# 6. Rheoleiddio

**57.** Roedd y Papur Gwyn ar gyfer Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys cynigion i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Awgrymodd y gallai'r safonau hyn "ofyn i ffermwyr gynnal lefel ofynnol o orchudd pridd ynghyd ag osgoi erydu a chywasgu pridd".[60]

**58.** Fel rhan o hyn, cynigiodd y Papur Gwyn y dylai safonau GAEC[61] 4 a 5, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gynnal gorchudd pridd gofynnol yn ogystal â lleihau erydiad a chywasgiad pridd, gael eu cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.[62] Fodd bynnag, nid oedd y pwerau hyn yn cael eu cynnwys yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) pan y'i cyflwynwyd.

**59.** Clywodd y Pwyllgor alwadau i ailgynnau'r syniad o Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu iechyd y pridd. Byddai'r rhain yn berthnasol i bob ffermwr, nid dim ond y rhai sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedodd yr Athro Emmett fod angen safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer pridd. Eglurodd y gellid creu meincnodau iechyd pridd ar gyfer Cymru:

> *"so that farmers have a goal to aim for, and that they can start with flexibility, with support, thinking about, 'Well, I'm in the bottom 10 per cent of carbon in my soil, for my type of soil, my climate, my what have you. How do I at least get to the middle ground? How do I even get into the top level of what's possible in my soil?'"*[63]

**60.** Eglurodd yr Athro Williams y gallai'r safonau hyn sicrhau bod ffermwyr sy'n dewis peidio ag ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn parhau i warchod iechyd eu pridd. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"what worries me in that respect is the fact that the [sustainable farming] scheme is opt-in and, potentially, you could foresee that those farms that are more focused on production and, inevitably, are likely to be more intensive, are the least likely to opt in. … So, I guess that's really where the national minimum standards come in, …*

[60] Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)
[61] Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) - safonau a etifeddwyd o gyllid amaethyddol yr UE gyda'r nod o gyflawni amaethyddiaeth gynaliadwy ac sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y Cynllun Taliadau Sylfaenol.
[62] Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru)
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 171

> *because if we do not get the uptake of SFS that we would all like to see, if the budget isn't there or whatever, then we've got to be aware of not racing to the bottom."*[64]

**61.** Rhybuddiodd Cymdeithas y Pridd hefyd:

> *"There are potential risks to soils, water, and biodiversity arising from further intensification of agriculture if farmers choose not to participate in the SFS. Furthermore, value for public money is reduced if SLM [Sustainable Land Management] gains secured through scheme payments are offset by regulatory failure to control damaging practices or pollution on the same farm or elsewhere".*[65]

**62.** Fodd bynnag, nid oedd yr undebau ffermio o'r farn mai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol oedd yr ateb cywir. Gofynnodd FUW y cwestiwn, os dewisir rhoi safonau gofynnol cenedlaethol ar waith yn gyffredinol, ble i dynnu'r llinell? Mae'n gofyn, os nad yw rhywun yn cael ei dalu, a yw hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gysylltiedig â phridd gydymffurfio ag ef?[66]

**63.** Awgrymodd NFU Cymru, yn lle gosod safonau, y dylid dylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy fel y gall pawb ymuno:

> *"We are creating a scheme that is, essentially, going to be groundbreaking because it's something for Wales, made by Wales, set outside Europe and should be there to deliver on all of the sustainable land management objectives. And we have a duty to make sure that that scheme is accessible for all farmers and delivers at least the same benefit as BPS in terms of food security, biodiversity, climate, nature—all of those things."*[67]

**64.** Mewn llythyr at y Pwyllgor, eglurodd y Dirprwy Brif Weinidog nad oedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u cynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 oherwydd:

> *"Mae'r llinell sylfaen reoleiddio ar gyfer amaethyddiaeth, y cyfeiriwyd ati yn flaenorol fel Safonau Gofynnol Cenedlaethol, eisoes yn bodoli ac*

[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 175
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas y Pridd (Saesneg yn unig)
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 267
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 277

> *yn pennu'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid i bob ffermwr a thirfeddiannwr gydymffurfio â hwy, a'r troseddau cysylltiedig mewn perthynas ag unrhyw dramgwyddau difrifol."*

**65.** Fodd bynnag, dywedodd y llythyr hefyd y "bydd GAEC 4 a 5 yn berthnasol i'r rhai a fydd yn hawlio Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy."[68] Mae'r Dirprwy Brif Weinidog hefyd wedi ymrwymo i wneud GAEC 5 yn rheoliad o fewn 18 mis yn ei ymateb i adolygiad statudol o Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.[69]

**66.** Mae disgrifiad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cynnwys rhestr o'r safonau GAEC sy'n seiliedig ar reoliadau a fydd yn cael eu cefnogi gan ganllawiau sy'n nodi'n fanwl rwymedigaethau ffermwr sy'n derbyn taliadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r rhestr hon yn cynnwys GAEC 2,[70] 3,[71] 6[72] a 7[73], ond nid yw'n cynnwys GAEC 4 a 5.[74]

## Ein barn ni

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth mai'r ffermwyr mwyaf dwys yw'r rhai sydd hefyd fwyaf tebygol o beidio ag ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O ganlyniad, rydym yn poeni nad yw prif fecanwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo gwella pridd yn effeithiol o ran annog ffermwyr sydd o bosibl yn achosi'r niwed mwyaf i'w pridd i wella eu harferion. Gallai eu harferion danseilio gwaith da y rhai sydd wedi tanysgrifio i'r Cynllun. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ac unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd ganddi i annog ffermwyr sy'n optio allan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd eu pridd. Cawsom ein calonogi bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi ymrwymo i wneud GAEC 5 yn rheoliad o fewn 18 mis yn ei ymateb i adolygiad statudol o Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Rydym yn falch bod llythyr y Dirprwy Brif Weinidog wedi ymrwymo y bydd GAEC 4 a 5 yn berthnasol i hawlwyr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad ydynt yn ymddangos yn y Disgrifiad o'r Cynllun. Dylai

[68] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog at y Cadeirydd, 23 Mehefin 2025
[69] Llywodraeth Cymru Adolygiad Llywodraeth Cymru yn dangos bod angen gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr
[70] Tynnu dŵr ar gyfer dyfrhau
[71] Diogelu dŵr daear rhag llygredd
[72] Cynnal a chadw deunydd organig pridd
[73] Cadw nodweddion tirwedd
[74] Llywodraeth Cymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026: disgrifiad o'r cynllun

Llywodraeth Cymru nodi'r rhestr lawn o safonau GAEC a fydd yn berthnasol i hawlwyr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi beth yw ei chynlluniau i annog ffermwyr nad ydynt yn ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i wella iechyd eu pridd. Fel rhan o hyn, dylai fanylu ar ei chynlluniau ar gyfer rheoleiddio, gan gynnwys rhoi GAEC 4 a 5 ar sail statudol.

**Casgliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'n union pa safonau GAEC fydd yn berthnasol i hawlwyr y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

# 7. Targedau

**67.** Mae adran 4 Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi'r dangosyddion a'r targedau a ddefnyddir i fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Hoffai Cymdeithas y Pridd weld targed a dangosyddion iechyd y pridd yn cael eu cynnwys yn y gyfres hon.[75]

**68.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas y Pridd yn nodi er y gallai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy helpu, 'mae diffyg targed iechyd y pridd rhwymol a strategaeth bridd genedlaethol yng Nghymru i annog cynnydd parhaol'. Mae Cymdeithas y Pridd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i darged sy'n gyfreithiol rwymol ac sydd wedi'i ategu gan gynllun monitro pridd cenedlaethol sydd wedi'i ariannu'n briodol.[76]

**69.** Roedd yr Athro Emmett yn galw am ddangosydd cenedlaethol ar iechyd y pridd, gan ddweud:

> *"let's just create a national minimum standard that says, 'We've got the structure. It's not contaminated, it's got enough organic matter, it's not too acid', and farmers are encouraged to monitor that and respond to it and make their soil fit and be at least above that minimum standard."*[77]

**70.** Fodd bynnag, roedd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yn dadlau'n erbyn cyflwyno targedau, gan ddweud nad oedd y fframwaith rheoleiddio presennol yn diflannu, oherwydd bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"We've also got the Environmental Impact Assessments, EIAs, which you need to apply for before you're changing any land use. So, I think it is probably an opportunity for Welsh Government to explain these things a bit better and provide the guidance in a more understandable way".*[78]

[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas y Pridd (Saesneg yn unig)
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas y Pridd (Saesneg yn unig)
[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 173
[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 260

**71.** Dywedodd NFU Cymru ei bod hi'n anodd iawn gosod targed ar briddoedd oherwydd bod 'cymaint o amrywioldeb ar draws mathau o bridd ledled Cymru', a dywed ei fod yn dibynnu ar uchder y tir, y sector, a bod 'sawl peth a all ei newid'.[79]

**72.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor mai'r dull gweithredu presennol gyda'r dangosyddion pridd yw'r un cywir ar gyfer yr hyn a gaiff ei wneud yng Nghymru. Dywed fod y gwaith monitro a'r dangosyddion wedi'u teilwra i anghenion Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod ymarferoldeb targedau statudol a phenderfynu beth yw pridd iach yn llawn heriau. Eglurodd:

> *"The challenge comes from the different capacity of different soil types to deliver different ecosystem services within climate and land use constraints, and I have to say the requirements of different stakeholders as well."*[80]

## Ein barn ni

Rydym yn derbyn ei bod yn heriol cyflwyno targed sy'n gyfreithiol rwymol ar gyfer iechyd y pridd, yn rhannol oherwydd yr amrywioldeb ledled Cymru. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn rheswm i beidio â deddfu. Serch hynny, nid ydym yn argyhoeddedig mai targedau sy'n gyfreithiol rwymol yw'r dull cywir ar hyn o bryd.

Rydym yn cefnogi galwadau i Lywodraeth Cymru egluro'r canllawiau a'r cyngor i gefnogi gwella iechyd y pridd, ac y dylai fod i bob ffermwr, nid dim ond drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gallai'r gefnogaeth a'r cyngor hwn gynnwys canllawiau ar y safon ddisgwyliedig ofynnol.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl amcangyfrif effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar iechyd y pridd gan fod y nifer sy'n cofrestru yn ffactor anhysbys o hyd. Fodd bynnag, pe bai'r Llywodraeth yn cyflwyno safon ofynnol wirfoddol ar ffurf targed, gallai fesur cynnydd yn erbyn hyn ac yna, os na chyflawnir cynnydd drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gallai'r Llywodraeth ystyried rheoleiddio i greu safon ofynnol y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r canllawiau ynghylch iechyd y pridd. Fel rhan o hyn, dylai ystyried creu safon ofynnol wirfoddol ar gyfer iechyd y pridd y byddai wedyn yn ei defnyddio i fesur cynnydd, gyda'r posibilrwydd y

[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 171
[80] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraffau 248-249

gallai'r safon wirfoddol hon ddod yn safon ofynnol statudol os na chyflawnir cynnydd.

# 8. Buddsoddiad preifat a'r farchnad credyd carbon pridd

**73.** Disgrifiodd FUW y farchnad credyd carbon pridd bresennol fel rhyw fath o 'orllewin gwyllt' yn ei thystiolaeth. Eglurodd fod codau sefydledig ar gyfer coetiroedd a mawndiroedd a bod 'angen dirfawr am God Carbon Pridd unigol', er mwyn safoni gofynion mesur, modelu, parhaol a darparu llywodraethu o amgylch gwerthu credydau carbon o briddoedd.[81]

**74.** Roedd Cymdeithas y Pridd yn cefnogi'r honiad hwn, ar wahân i agweddau heb eu rheoleiddio ar y farchnad garbon wirfoddol a'r potensial i hynny barhau â'r status quo o wrthbwyso, mae angen meddwl yn ehangach na charbon hefyd ac edrych ar natur ochr yn ochr â'r hinsawdd.[82]

**75.** Aeth ymlaen i ddweud bod ymwybyddiaeth wirioneddol yn y gadwyn gyflenwi ac o fewn y sefydliadau ariannol o sut mae'r model busnes mor agored i risgiau newid hinsawdd a cholli natur. Ychwanegodd fod buddsoddwyr mewn gwirionedd yn edrych ar sut i leihau'r risg, ac mae hynny'n golygu 'cefnogi'r mathau o arferion a systemau ffermio sy'n meithrin iechyd y pridd ac yn meithrin y gwydnwch hwnnw.' [83]

**76.** Defnyddiodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru hefyd y gyfatebiaeth 'gorllewin gwyllt' ar gyfer marchnad credyd carbon pridd. Dywedodd nad oes digon o arian yn y pwrs cyhoeddus i ariannu adferiad amgylcheddol yng Nghymru. Dywed fod yr adroddiad ar faint yr angen ('Scale of Need') o'r llynedd wedi tynnu sylw at yr angen am £600 miliwn bob blwyddyn dros o leiaf 10 mlynedd i gyflawni'r targedau amgylcheddol. Dywed nad yw'r arian hwnnw ar gael. Felly, cred ei bod yn angenrheidiol manteisio ar farchnadoedd preifat. Awgrymodd:

> *"there's a role for Government to help get a degree of consistency and a bit of guarantee and security, maybe, for farmers to partake in private finance schemes."*[84]

**77.** Dywedodd yr Athro Emmet fod llawer o gwmnïau bwyd a diod yn yr UE yn 'symud i ffwrdd o gredydau carbon i'r hyn a elwir yn 'gadwyni gwerth' ac yn

---

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig, FUW (Saesneg yn unig)
[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 143
[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 143
[84] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 149

meddwl am iechyd y pridd yn ei gyfanrwydd'. Roedd hyn yn golygu bod cwmnïau'n edrych i greu brand lle mae pobl yn cydnabod eu bod yn gofalu'n well am y tir, eu bod yn annog natur ac yn gofalu am y pridd ac yn ei adfer.[85]

**78.** Dywedodd yr Athro Emmet wrth y Pwyllgor ei bod yn credu y byddai pobl yn y dyfodol yn edrych yn ôl ar gredydau carbon fel 'ffordd gul iawn o feddwl', a dywed:

> *"I would love Wales to be a leader in the field of how we partner public and private to do major landscape restoration projects, and help our farmers to actually deliver the transformation that we want. At the moment, I'm not quite seeing how we get into that. But there's the Green Finance Institute, Finance Earth, there are these companies that are trying to bring these things together. And I would just encourage Welsh Gov to work with those organisations … Because we keep hearing there's billions out there, if only we can find out how to make sure that they are robust and we don't go down the greenwashing or wishing line."*[86]

**79.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor y cred ei bod yn briodol bod yn ofalus ynglŷn â rhai o'r cynlluniau sydd ar gael, nid yn unig o fewn atafaelu carbon yn y pridd, ond hefyd ar y llwybr ehangach. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori yng Nghymru ar egwyddorion buddsoddi cynaliadwy o ran buddsoddiad moesegol i'r safonau uchaf nid yn unig o ran carbon, ond bioamrywiaeth hefyd, oherwydd dywed bod yn 'rhaid bod yn ofalus'.

**80.** Dywedodd wrth yr Aelodau hefyd na fyddai'n disgrifio'r farchnad credyd carbon pridd fel y gorllewin gwyllt, ond:

> *"… we certainly know that there have been schemes before that have found themselves undermined: when people look at it in detail, they say, 'What are you really adding here, beyond what's already there?".*[87]

## Ein barn ni

Mae'n amlwg bod problem gyda'r farchnad credyd carbon bresennol. Gallai hyn adael ffermwyr yn agored i arferion gwael ond gallai hefyd arwain at

[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 186
[86] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Ebrill 2025, paragraff 186
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mai 2025, paragraff 387

fuddsoddiadau nad ydynt yn optimaidd. Mae manteisio ar fuddsoddiad preifat a sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am stiwardiaeth dda o'u tiroedd yn ddwy agwedd bwysig iawn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu dilyn fel rhan o'i pholisi iechyd y pridd.

Yn y byrdymor, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan ffermwyr fynediad at gyngor o ansawdd uchel ar y farchnad credyd carbon. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu'r dirwedd buddsoddi preifat, gyda'r bwriad o archwilio manteision cymharol symud o gredydau carbon i gadwyni gwerth.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, sicrhau bod cyngor o ansawdd uchel ar gael i ffermwyr sy'n archwilio'r farchnad credyd carbon.

**Casgliad 6.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru adolygu'r dirwedd fuddsoddi breifat, gyda'r bwriad o archwilio manteision cymharol symud o gredydau carbon i gadwyni gwerth.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen y Pwyllgor ar y we.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **30 Ebrill 2025** | **Yr Athro Bridget Emmett, Prif Wyddonydd**<br>Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU<br>**Dr William Stiles, Darlithydd mewn Gwyddor Pridd**<br>Adran Gwyddorau Bywyd, Prifysgol Aberystwyth<br>**Yr Athro Prysor Williams, Cadeirydd Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd**<br>Ysgol Gwyddorau Amgylcheddol a Naturiol, Prifysgol Bangor |
| **15 Mai 2025** | **Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi,**<br>Cymdeithas y Pridd yng Nghymru<br>**Rhys Evans, Rheolwr Cymru,**<br>Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur<br>**Ellen Fay, Cyfarwyddwr Cydweithredol,**<br>Y Gynghrair Priddoedd Cynaliadwy<br>**Abi Reader, Dirprwy Lywydd,**<br>Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru<br>**Teleri Fielden, Swyddog Polisi,**<br>Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>**Fraser McAuley, Uwch-gynghorydd Polisi,**<br>Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad<br>**Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**James Cooke, Pennaeth Polisi Defnydd Tir Amaethyddol,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Chambers, Pennaeth Cangen Fframwaith Deddfwriaethol Amaethyddiaeth,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Naomi Matthiessen, Dirprwy Gyfarwyddwr - Tirweddau, Natur a Choedwigaeth,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a'r wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Sefydliad neu unigolyn | Dyddiad y cyfarfod |
|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | 30 Ebrill 2025 |
| Yr Athro Bridget Emmett | 30 Ebrill 2025 |
| Cymdeithas y Pridd yng Nghymru | 15 Mai 2025 |
| Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru | 15 Mai 2025 |
| Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) | 15 Mai 2025 |
| Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU) | 15 Mai 2025 |
| Llywodraeth Cymru | 15 Mai 2025 |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru | 20 Mehefin 2025 |